# RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (GWRANDAWIADAU ADDASRWYDD I YMARFER) 2024

## Rhagfyr 2024

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addasrwydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd **oll** yn berthnasol i gofrestru ac addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted.

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - http://www.legislation.gov.uk/wsi

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:

https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio

https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) , 91(2)(b), 92 (1),(2) a (3), 128(2), 136(4) a (5), 137(6), (7) ac (8) a 174(8) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd, a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75(3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### CYFLWYNIAD

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyfeirio, cychwyn a threfniadau trosiannol | 4 |
| 2. | Dehongli | 4 |


### RHAN II

### Y WEITHDREFN CYN GWRANDAWIAD ADDASRWYDD I YMARFER

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Adolygiad cyn-wrandawiad | 9 |
| 4. | Dull cynnal achosion | 10 |
| 5. | Gwŷs tyst | 10 |
| 6. | Rheoli achos | 11 |
| 7. | Hysbysiad o’r gwrandawiad | 13 |
| 8. | Gohirio’r gwrandawiad | 14 |
| 9. | Datgelu’r achos a chyflwyno dogfennau | 15 |


### RHAN III

### Y WEITHDREFN MEWN GWRANDAWIAD ADDASRWYDD I YMARFER

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Absenoldeb unigolyn cofrestredig o wrandawiad addasrwydd i ymarfer | 16 |
| 11. | Baich a safon y prawf | 16 |
| 12. | Addasrwydd i bledio | 16 |
| 13. | Y weithdrefn yn y gwrandawiad | 17 |
| 14. | Cyplysiad | 17 |
| 15. | Diwygio’r honiadau | 17 |
| 16. | Cyfaddefiadau | 17 |
| 17. | Tystiolaeth | 18 |
| 18. | Tystion | 18 |
| 19. | Mesurau arbennig | 19 |
| 20. | Oedi’r gwrandawiad | 19 |
| 21. | Pleidleisio | 19 |
| 22. | Canfyddiad ffeithiau | 19 |
| 23. | Addasrwydd i ymarfer | 20 |

24. Canfyddiad o ddim amhariad: cynnig rhoi rhybudd 21
25. Gwrandawiad llafar mewn perthynas â rhybudd arfaethedig 21
26. Canfyddiad o amhariad: cyflwyniadau ynghylch gwaredu 22
27. Gwaredu drwy ddileu drwy gytundeb 22
28. Gwarediadau cydsyniol eraill: ymgymeriadau 23
29. Penderfyniad 24
30. Hysbysiad o'r penderfyniad 24
31. Trawsgrifiad o'r gwrandawiad 25

**RHAN IV**

**CYFARFODYDD Y PANEL ADDASRWYDD I YMARFER**

32. Achos heb wrandawiad 26
33. Hysbysiad o'r cyfarfod 26
34. Y weithdrefn mewn cyfarfod addasrwydd i ymarfer 27

**RHAN V**

**ADOLYGU**

35. Achosion adolygu 28
36. Hysbysiad o'r gwrandawiad 28
37. Datgelu'r achos a chyflwyno dogfennau 29
38. Y weithdrefn yn y gwrandawiad 29
39. Achos heb wrandawiad 30
40. Hysbysiad o'r cyfarfod 30
41. Y weithdrefn mewn cyfarfod adolygu 31

## RHAN I

## CYFLWYNIAD

### Cyflwyno, cychwyn a threfniadau trosiannol

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2024 a byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

(2) Dirymir drwy hyn Reolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014 ("Rheolau 2014"), ond bydd Rheolau 2014 yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw achos lle y gwnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Cymru cyn 3 Ebrill 2017, fel petai'r rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(3) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017 ("Rheolau 2017"), ond pan wnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Cymru ar neu ar ôl 3 Ebrill 2017 ond cyn 1 Ebrill 2018, bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i glywed yr achos a bydd Rheolau 2017 yn berthnasol o hyd fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(4) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2018 ("Rheolau 2018"), ond pan wnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Cymru ar ddyddiad ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 ond cyn 1 Ebrill 2020, bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i glywed yr achos a bydd Rheolau 2018 yn berthnasol o hyd fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(5) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2020 ("Rheolau 2020"), ond pan wnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Cymru ar ddyddiad ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020 ond cyn 1 Hydref 2022, bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i glywed yr achos a bydd Rheolau 2020 yn berthnasol o hyd fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(6) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2022 ("Rheolau 2022"), ond pan wnaed atgyfeiriad i Ofal Cymdeithasol Cymru ar ddyddiad ar neu ar ôl 1 Hydref 2022 ond cyn 1 Rhagfyr 2024, bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i glywed yr achos a bydd Rheolau 2022 yn berthnasol o hyd fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

### Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae **"Deddf"** yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd);

Mae **"honiad"** yn golygu honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer;

Mae **"achos"** yn golygu gweithrediadau yn ymwneud ag achos addasrwydd i ymarfer;

Mae **“cyfarfod rheoli achos”** yn golygu cyfarfod gerbron panel sy’n cynnwys un neu dri aelod o banel, a gynghorir gan gynghorydd cyfreithiol, a sefydlwyd o dan Ran II y Rheolau hyn;

Mae **“rhybuddiad”**, mewn perthynas â throsedd, yn golygu:

(a) rhybuddiad amodol a roddir o dan adran 22 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (c.44) (rhybuddiadau amodol ar gyfer oedolion) neu o dan adran 66A Deddf Trosedd ac Anhrefn (c.37) (rhybuddiadau amodol ar gyfer plant a phobl ifanc);

(b) unrhyw rybuddiad arall a roddir i unigolyn yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â throsedd y mae’r unigolyn hwnnw wedi cyfaddef iddi ar yr adeg y rhoddwyd y rhybuddiad;

(c) unrhyw beth sy’n cyfateb i rybuddiad sy’n dod o fewn paragraff (a) neu (b) (sut bynnag y’i disgrifir) sydd:

(i) yn cael ei roi i unigolyn mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd y tu allan i Gymru a Lloegr a fyddai, pe byddai wedi cael ei chyflawni yng Nghymru yn Lloegr, yn gyfystyr â throsedd, ac

(ii) nad yw’n ddewis amgen yn lle erlyniad (o fewn ystyr adran 8AA Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c.53));

Mae **“rheolau trefniadaeth sifil”** yn golygu rheolau’r llys a wneir o dan adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997;

Mae **“clerc”** yn golygu’r unigolyn sy’n gyfrifol am drefniadau gweinyddol y cyfarfod neu’r gwrandawiad, fel y’i diffinnir yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2022 neu, os yw’n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach o’r rheolau hynny;

Mae **“Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol”** yn golygu’r Cod Ymarfer sy’n gosod y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Adran 112(1)(a) y Ddeddf;

Mae **“cwyn”** yn golygu gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn cofrestredig sy’n ffurfio’r sail i honiad yn erbyn yr unigolyn hwnnw ac sy’n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dod i sylw Gofal Cymdeithasol Cymru trwy unrhyw ddull a gwybodaeth sy’n ymwneud ag euogfarnau a rhybuddiadau troseddol;

Mae **“achwynydd”** yn golygu unrhyw unigolyn (gan gynnwys cyflogwr neu sefydliad) sy’n gwneud cwyn yn erbyn unigolyn cofrestredig;

Mae **“gorchymyn cofrestru amodol”** yn golygu gorchymyn a wneir gan y panel addasrwydd i ymarfer sy’n gosod amodau ar gofrestriad unigolyn cofrestredig;

Mae **“diwrnodau”** yn golygu diwrnodau calendr;

Mae **“penderfyniad”** yn golygu penderfyniad a wnaed, neu ganfyddiad y daethpwyd iddo, gan gorff rheoleiddio;

Mae **“unigolyn a awdurdodwyd yn briodol”** yn golygu unigolyn y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dirprwyo awdurdod iddo, a gall gynnwys:

(a) un neu fwy o aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru, a/neu
(b) un neu fwy o unigolion a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwnnw;

Mae **"cyflogwr"** yn cynnwys asiantaethau cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (sy'n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol ohonynt;

Bydd **"addasrwydd i ymarfer"** yn cael ei ddehongli yn unol ag adran 117 y Ddeddf a bydd y termau **"amhariad ar addasrwydd i ymarfer"** ac **"amhariad"** yn cael eu dehongli yn unol â hynny;

Mae **"gwrandawiad addasrwydd i ymarfer"** yn golygu gwrandawiad gerbron panel addasrwydd i ymarfer mewn achos addasrwydd i ymarfer;

Mae **"cyfarfod addasrwydd i ymarfer"** yn golygu cyfarfod gerbron panel addasrwydd i ymarfer mewn achos addasrwydd i ymarfer;

Mae **"panel addasrwydd i ymarfer"** yn golygu panel a sefydlwyd o dan adran 174 y Ddeddf i:
(a) wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer unigolion sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;
(b) atal cofrestriad unigolyn ar y gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestriad, tra'n disgwyl penderfyniad o'r math a grybwyllwyd ym mharagraff (a);

Mae **"achos addasrwydd i ymarfer"** yn golygu achos gerbron panel addasrwydd i ymarfer;

Mae **"gwrandawiad"** yn golygu gwrandawiad addasrwydd i ymarfer;

Mae **"*in camera*"** yn golygu yn absenoldeb y partïon a'u cynrychiolwyr, a'r cyhoedd;

Mae **"Rheolau Ymchwilio"** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2024 neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach o'r rheolau hynny;

Mae **"cynghorydd cyfreithiol"** yn golygu unigolyn a chanddo gymhwyster cyffredinol deng mlynedd o fewn ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, sydd â hawl i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

Mae **"cynghorydd meddygol"** yn golygu ymarferydd meddygol, wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Meddygol 1983, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

Mae **"hysbysiad"** yn golygu gwybodaeth a gyhoeddir ynglŷn ag achos panel addasrwydd i ymarfer;

Mae **"gwrandawiad llafar"** yn golygu gwrandawiad a gynhelir yn dilyn cais i ymateb i hysbysiad o dan adran 128(1) y Ddeddf a Rheol 7 y Rheolau Ymchwilio.

Mae **“panel”** yn golygu panel addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru a gyfansoddwyd yn unol ag adran 174 y Ddeddf y cyflwynir yr achos oddi tani;

Mae **“Rheolau Cyfansoddiad Paneli”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2024 neu, os yw’n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach o’r rheolau hynny;

Mae **“partïon”** yn golygu’r unigolyn cofrestredig y mae’r achos addasrwydd i ymarfer neu’r achos gorchymyn interim yn ymwneud ag ef a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu eu cynrychiolwyr);

Mae **“cyflwynydd”** yn golygu’r unigolyn sy’n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn gwrandawiad gerbron panel, a gallai gynnwys un o swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a gyflogwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwn;

Mae **“adolygiad cyn-wrandawiad”** yn golygu cyfarfod gyda chynghorydd cyfreithiol fel cadeirydd yn unol â rheol 3 at ddiben rhoi cyfarwyddiadau rheoli achos;

Mae **“cofrestr”** yn golygu’r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae **“unigolyn cofrestredig”** yn golygu unigolyn y gwnaed yr atgyfeiriad i’r panel addasrwydd i ymarfer ynglŷn ag ef sydd wedi cofrestru mewn rhan o’r gofrestr, gan gynnwys unigolyn y byddai ei gofrestriad wedi darfod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno’n berthnasol i’r unigolyn;

Mae **“cofrestriad”** yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Mae **“corff rheoleiddio”** yn golygu corff yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall sy’n gyfrifol am reoleiddio, archwilio, arolygu, trwyddedu neu adolygu darpariaeth gofal cymdeithasol, iechyd neu addysg, neu reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal cymdeithasol, iechyd neu addysgu;

Mae **“gorchymyn dileu”** yn golygu gorchymyn a wneir gan y panel addasrwydd i ymarfer i ddileu cofnod sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig yn y gofrestr;

Mae **“Gofal Cymdeithasol Cymru”** yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae **“gorchymyn atal dros dro”** yn golygu gorchymyn a wneir gan banel addasrwydd i ymarfer i atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig dros dro;

Mae **“tribiwnlys”** yn golygu’r Tribiwnlys Haen Gyntaf;

Mae **“ymgymeriad”** yn golygu cytundeb gan yr unigolyn cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad a wnaed o dan adran 126(3)(d) neu 136 y Ddeddf;

Mae **“prifysgol”** yn golygu’r brifysgol neu’r sefydliad addysg uwch sy’n darparu’r cwrs gradd a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf ar gyfer unigolion sy’n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol;

Mae **“rhybudd”** yn golygu gwarediad a wneir gan y panel addasrwydd i ymarfer o dan adran 138(6) y Ddeddf.

(2) Yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

(a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
(b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi’i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sydd â’r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
(c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi’i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
(ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi’i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

## RHAN II

## Y WEITHDREFN CYN GWRANDAWIAD ADDASRWYDD I YMARFER

### Adolygiad cyn-wrandawiad

3. (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r achos gael ei atgyfeirio i'r panel, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru gynnull adolygiad cyn-wrandawiad a bydd yn gwahodd y partïon ac unrhyw gynrychiolydd i fynychu.

(2) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn awdurdodi cynghorydd cyfreithiol, a fydd yn gweithredu'n annibynnol ar y partïon, i gynnal yr adolygiad cyn-wrandawiad. Ni fydd aelodau'r panel yn mynychu'r adolygiad cyn-wrandawiad.

(3) Ceir cynnal yr adolygiad cyn-wrandawiad yn rhithwir, drwy ffôn-gynadledda neu fideo-gynadledda neu drwy'r cyfryw ddull arall a benderfynir gan y cynghorydd cyfreithiol, ar ôl ymgynghori â'r partïon.

(4) Bydd y clerc yn cadw cofnod o'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol, unrhyw gyfaddefiadau, a phenderfyniadau a wnaed yn ystod yr adolygiad cyn-wrandawiad.

(5) Caiff yr unigolyn cofrestredig fynychu'n bersonol a/neu gael ei gynrychioli gan:

- (a) gyfreithiwr neu gwnsler;
- (b) cynrychiolydd unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
- (c) os yw'r cynghorydd cyfreithiol yn cytuno, unrhyw unigolyn arall.

(6) Bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried yn yr adolygiad cyn-wrandawiad:

- (a) yr honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig, a baratowyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac a anfonwyd at y cynghorydd cyfreithiol a'r partïon cyn yr adolygiad cyn-wrandawiad;
- (b) unrhyw gyfaddefiadau o ffeithiau;
- (c) unrhyw gyfaddefiad o unrhyw fater a nodir yn adran 117(1) (a) i (f) y Ddeddf;
- (ch) unrhyw gyfaddefiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer;
- (d) p'un a yw'r partïon yn cytuno y caiff panel addasrwydd i ymarfer benderfynu ar yr achos heb wrandawiad;
- (dd) p'un a fydd yr unigolyn cofrestredig yn mynychu unrhyw wrandawiad;
- (e) enwau tystion sydd i'w galw (os oes rhai);
- (f) p'un a ddylid gwneud darpariaethau penodol ar gyfer tystion agored i niwed yn y gwrandawiad;
- (ff) p'un a fydd tystiolaeth arbenigol yn cael ei dwyn;
- (g) p'un a fydd iechyd yr unigolyn cofrestredig yn cael ei godi fel mater yn yr achos ac, os felly, p'un a ddylid cael adroddiad gan ymarferydd meddygol;
- (ng) unrhyw ddyddiadau pryd na fyddai'r unigolyn cofrestredig neu dystion yn gallu mynychu gwrandawiad;
- (h) amcangyfrif o'r amser ar gyfer unrhyw wrandawiad;
- (i) p'un a oes angen adolygiad cyn-wrandawiad arall;

(l) p’un a oes angen cyfarfod rheoli achos.

(7) Caiff y cynghorydd cyfreithiol roi barn ragarweiniol i’r partïon er mwyn datrys cwestiynau ynglŷn â’r gyfraith neu dderbynioldeb tystiolaeth.

(8) Caiff y cynghorydd cyfreithiol roi cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn gyflym ac yn effeithiol, a allai gynnwys cyfarwyddiadau o blith y rhestr ganlynol (nad yw’n hollgynhwysol):

(a) cyfarwyddiadau ynglŷn â chyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau meddygol ac arbenigol;
(b) pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn dymuno cyfaddef ffeithiau’r honiad(au), caiff y cynghorydd cyfreithiol gyfarwyddo’r partïon i baratoi datganiad cytunedig o ffeithiau o fewn graddfa amser benodol;
(c) pan fydd y partïon yn cytuno y ceir penderfynu ar yr achos heb wrandawiad, caiff y cynghorydd cyfreithiol gyfarwyddo’r partïon i baratoi:
 (i) datganiad cytunedig o ffeithiau;
 (ii) cytundeb ysgrifenedig ar y penderfyniad terfynol sydd i’w wneud gan y panel (gan gynnwys manylion y penderfyniad hwnnw, megis y cyfnod y bydd gorchymyn mewn grym neu unrhyw amodau sydd i’w gosod ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig);
 (iii) cytundeb ysgrifenedig y ceir penderfynu ar yr achos heb wrandawiad;
(ch) o ran unrhyw ddatganiad tyst sydd i’w gyflwyno gan y naill barti neu’r llall, caiff y cynghorydd cyfreithiol gyfarwyddo y ceir cyflwyno hysbysiad gyda’r datganiad sydd i’w gyflwyno yn nodi bod y parti sy’n cyflwyno’r datganiad yn bwriadu dibynnu ar y datganiad tyst heb alw’r sawl a luniodd y datganiad, oni bai bod y parti arall yn hysbysu o fewn 14 diwrnod o gyflwyno’r datganiad ei fod yn mynnu bod y tyst dan sylw yn mynychu ac yn rhoi tystiolaeth.

(9) Lle nad yw parti’n cydymffurfio â’r cyfarwyddiadau a roddwyd mewn adolygiad cyn-wrandawiad, caiff panel ddod i’r cyfryw gasgliadau ag y mae’n ystyried eu bod yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag y mae’n credu ei fod yn fwyaf priodol o ran derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater arall perthnasol.

**Dull cynnal achosion**

4. (1) Yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y’u diwygiwyd), caiff y panel amrywio’r gweithdrefnau a amlinellir yn y Rheolau hyn er mwyn ymdrin ag achos yn deg ac yn gyfiawn, a chaiff roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â phenderfynu ar yr achos yn gyfiawn ac yn brydlon.

**Gwŷs tyst**

5. (1) Pan fydd un o’r partïon yn mynnu bod tyst yn bresennol neu fod tyst yn cyflwyno dogfen neu dystiolaeth berthnasol a bod y tyst hwnnw wedi gwrthod mynychu neu gyflwyno’r ddogfen gerbron y gwrandawiad neu wedi methu â chadarnhau y bydd yn gwneud hynny, caiff y parti hwnnw gyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn iddo wneud cais i’r Llys Sirol neu’r Uchel Lys am gyhoeddi gwŷs tyst yn unol â Rheol 34.4 Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998.

(2) Bydd cais ysgrifenedig a wnaed o dan baragraff (1) uchod yn cael ei ystyried gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol, a gaiff benderfynu:

(a) y dylai'r cais gael ei ganiatáu;
(b) y dylai'r cais gael ei wrthod; neu
(c) y dylai'r cais gael ei ystyried gan banel mewn cyfarfod rheoli achos o dan reol 6 neu mewn gwrandawiad a gynullwyd o dan Ran III y rheolau hyn.

(3) Wrth wneud penderfyniad, bydd yr unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu'r panel (yn ôl y digwydd) yn ystyried perthnasedd a phwysigrwydd tystiolaeth y tyst neu'r ddogfen dan sylw a ph'un a yw'n deg ac yn briodol gwneud y cyfarwyddyd a geisir.

(4) Lle y caniateir cais o dan baragraff (2) uchod gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu y rhoddir cyfarwyddyd gan banel o dan reol 6(8)(j), bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys ac yn cael y wŷs tyst briodol.

(5) Lle'r oedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud y cais am gyfarwyddyd ar gyfer y wŷs tyst, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trefnu i'r wŷs tyst gael ei chyflwyno i'r tyst dan sylw.

(6) Oni chyfarwyddir fel arall, lle y gwnaed y cais am gyfarwyddyd gan neu ar ran yr unigolyn cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi'r wŷs tyst i'r unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi a bydd yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs tyst i'r tyst dan sylw.

(7) Oni chyfarwyddir fel arall, bydd y parti sy'n cyflwyno'r wŷs tyst yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau teithio a/neu iawndal am golli amser, fel sy'n ofynnol gan Reol 34.7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

## Cyfarfod rheoli achos

6. (1) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnull:
(a) lle y'i cyfarwyddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol mewn adolygiad cyn-wrandawiad;
(b) lle, yn dilyn cais gan un o'r partïon, mae swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried y byddai cyfarfod rheoli achos yn briodol;
(c) yn unol â chyfarwyddyd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol;
(ch) yn unol â chyfarwyddyd panel.

(2) Ceir cynnal cyfarfod rheoli achos drwy fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu drwy gymryd rhan yn rhithwir neu mewn ffôn-gynadledda neu fideo-gynadledda.

(3) Yn amodol ar baragraff (4), bydd clerc yn anfon hysbysiad priodol at yr unigolyn cofrestredig a'r cyflwynydd o leiaf bum niwrnod cyn y cyfarfod rheoli achos.

(4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (3) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd.

(5) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cynnwys un aelod o banel oni bai:

(a) bod cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi mewn adolygiad cyn-wrandawiad y dylai'r panel gynnwys tri aelod;
(b) bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn penderfynu y dylai'r panel gynnwys tri aelod; neu
(c) pan fydd panel yn cyfarwyddo y dylai cyfarfod rheoli achos gael ei gynnal, bod y panel hefyd yn cyfarwyddo y dylai'r panel ar gyfer y cyfarfod rheoli achos gynnwys tri aelod.

(6) Gall yr aelod(au) o banel fod yr un aelod(au) a ddefnyddir ar gyfer y gwrandawiad llawn neu beidio.

(7) Bydd y panel mewn cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol.

(8) Caiff y cyfarfod rheoli achos roi cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn gyflym ac yn effeithiol, a chaiff wneud penderfyniad ynglŷn â mater rhagarweiniol y gellir penderfynu arno gan banel yn unig, gan gynnwys:

(a) p'un a ddylai tystiolaeth benodol gael ei chyfaddef;
(b) os oes hawlogaeth gan yr unigolyn i fesurau arbennig yn ôl hawl yn unol â rheoliadau 24(1)(a) a 24(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), pa fesurau arbennig y dylid eu rhoi ar waith[1];
(c) p'un a ddylai unrhyw dyst arall gael ei drin fel un y mae arno angen mesurau arbennig ac, os felly, pa fesurau y dylid eu sefydlu;
(ch) p'un a ddylid cynnal gwrandawiad ar y cyd yn ymwneud â dau unigolyn cofrestredig neu fwy;
(d) p'un a ddylai gwrandawiad neu ran ohono gael ei gynnal yn breifat yn unol â rheoliad 21 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd);
(dd) p'un a ganiateir i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad gerbron y panel gan rywun heblaw am gyfreithiwr, cwnsler neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol;
(e) p'un a ellir cynnal yr achos heb wrandawiad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 17(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol;
(f) p'un a ellir ystyried yr achos heb wrandawiad mewn cyfarfod o banel yn unol â rheol 32;
(ff) p'un a fydd iechyd yr unigolyn cofrestredig yn cael ei godi fel mater yn yr achos ac, os felly, p'un a ddylid cael adroddiad gan ymarferydd meddygol;
(g) p'un a ddylid rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gwŷs tyst.

(9) Bydd y weithdrefn yn y cyfarfod rheoli achos yn cael ei phenderfynu gan aelod(au) y panel yn unig.

(10) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnal yn breifat, oni bai bod aelodau'r panel yn cyfarwyddo fel arall.

---

[1] O dan reoliad 24(1)(a), bydd gan ungiolyn sy'n rhoi tystiolaeth mewn gwrandawiad Panel Gorchmynion Interim, gan gynnwys unigolyn cofrestredig, hawlogaeth i fesurau arbennig os yw o dan 18 oed. O dan 24(2), bydd gan unigolyn hawlogaeth i fesurau arbennig os bydd y mater y mae'r achos yn ymwneud ag ef o natur rywiol ac mae'r unigolyn yn ddioddefwr honedig.

(11) Lle nad yw parti'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd mewn cyfarfod rheoli achos, caiff panel addasrwydd i ymarfer ddod i'r cyfryw gasgliadau ag y mae'n ystyried eu bod yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag y mae'n credu ei fod yn fwyaf priodol o ran derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater arall perthnasol.

**Hysbysiad o'r gwrandawiad**

7. (1) Pan fydd achos wedi'i restru ar gyfer gwrandawiad gerbron panel, o leiaf 42 diwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r gwrandawiad at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) yn nodi'r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig;
(c) yn datgan p'un a benodwyd cynghorydd meddygol i gynghori'r panel;
(ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i gael ei gynrychioli gan:
  (i) gyfreithiwr neu gwnsler; neu
  (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
  (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i:
  (i) fynychu'r gwrandawiad;
  (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
  (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iv) galw a chroesholi tystion, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 24(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd)[2];
(dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig bod rhaid i unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (d)(i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf saith diwrnod cyn gwrandawiad, gan nodi enw'r cynrychiolydd arfaethedig a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
(e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na chaiff unigolyn sy'n cynrychioli neu'n cynghori'r unigolyn cofrestredig roi tystiolaeth;
(f) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawiad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad i'w hystyried gan y panel;
(ff) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel os canfyddir amhariad ar addasrwydd i ymarfer;
(g) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad;
(ng) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan p'un a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig yn mynychu'r gwrandawiad.
(h) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

[2] O dan reoliad 24(12), os yw'r mater y mae'r achos yn gysylltiedig ag ef o natur rywiol, ni all yr unigolyn cofrestredig groesholi'r dioddefwr honedig yn bersonol, heblaw eithriadau cyfyngedig. Mae Rheoliad 24(13) ac (14) yn darparu sut y dylid cynnal yr achos o dan y cyfryw amgylchiadau.

(2) Ni fydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad, ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(3) Pan fydd achos wedi'i restru ar gyfer gwrandawiad gerbron panel, o leiaf 42 diwrnod cyn y gwrandawiad, oni bai bod y partïon yn cytuno ar ddyddiad cynharach ar gyfer gwrandawiad yn unol â pharagraff (2), bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r gwrandawiad at:

(a) yr achwynydd;
(b) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(c) y brifysgol, os yw'r unigolyn wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

(4) Bydd yr hysbysiad sydd i'w anfon o dan baragraff (3) yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad.

**Gohirio'r gwrandawiad**

8. (1) Pan fydd y naill barti neu'r llall yn dymuno gohirio'r gwrandawiad, bydd cais yn cael ei wneud yn ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Bydd y parti sy'n gwneud cais o'r fath yn rhoi copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

(3) Pan fydd y partïon yn cytuno i ohiriad fwy na 7 niwrnod cyn dyddiad cyntaf gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, caiff unigolyn a awdurdodwyd yn briodol ohirio'r gwrandawiad.

(4) Wrth wneud penderfyniad, rhaid i'r unigolyn a awdurdodwyd yn briodol ystyried yr amcan cyffredinol i ddelio'n deg ac yn gyfiawn ag achosion.

(5) Os gwneir cais i ohirio lai na 7 niwrnod cyn dyddiad cyntaf y gwrandawiad, nid yw'r partïon yn cytuno i'r gohiriad neu os nad yw'r unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn cytuno i'r cais, bydd y cais yn cael ei ystyried gan gadeirydd y panel a fydd, yn amodol ar baragraff 7, yn penderfynu ar y cais, gan ystyried:

(a) cyflwyniadau'r ddau barti;
(b) unrhyw niwed tebygol i'r naill barti neu'r llall;
(c) budd y cyhoedd o ran gwaredu'r achos yn gyflym.

(6) Caiff y parti y rhoddir y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i gadeirydd y panel.

(7) Pan fydd y cadeirydd o'r farn na ellir gwneud penderfyniad heb wybodaeth neu gyflwyniadau ychwanegol gan un neu fwy o'r partïon, caiff y cadeirydd gyfarwyddo:

(a) bod y cais yn cael ei atgyfeirio i gyfarfod rheoli achos i'w ystyried o dan reol 6; neu
(b) os yw'r cais am ohirio'n cael ei wneud llai na saith diwrnod cyn dyddiad cyntaf y gwrandawiad, y dylai'r cais gael ei benderfynu gan y panel a gynullwyd i glywed yr achos.

(8) Os bydd y cais am ohirio'n cael ei ganiatáu, neu os bydd rhaid i'r mater gael ei aildrefnu am ryw reswm arall, bydd y clerc yn rhoi gwybod i'r partïon a'r rhai a restrir yn rheol 7(3) am ddyddiad newydd y gwrandawiad, cyn gynted â phosibl.

**Datgelu'r achos a chyflwyno dogfennau**

9. (1) O leiaf 28 niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad, neu'n gynt os mynnir hynny gan gyfarwyddiadau a roddwyd o dan reol 3 mewn adolygiad cyn-wrandawiad neu o dan reol 5 mewn cyfarfod rheoli achos, bydd y partïon yn cyflwyno i'w gilydd, ac yn rhoi i'r clerc, gopïau o'r holl ddogfennau ac adroddiadau y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

(2) Bydd y partïon yn gwneud trefniadau i ddogfennau gwreiddiol gael eu harchwilio o leiaf ddeng niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad.

(3) Bydd y cyflwynydd yn ystyried p'un a oes unrhyw ddogfennau eraill ym meddiant Gofal Cymdeithasol Cymru a allai gynorthwyo'r unigolyn cofrestredig nad yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt, a bydd yn cyflwyno copïau o'r cyfryw ddogfennau (os oes rhai) i'r unigolyn cofrestredig.

(4) O leiaf ddeng niwrnod cyn gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon copïau o'r canlynol at y panel:

(a) yr hysbysiad o'r gwrandawiad;
(b) unrhyw ddogfennau a roddwyd gan y partïon o ran paragraffau (1) a (3) uchod.

## RHAN III

## Y WEITHDREFN MEWN GWRANDAWIAD ADDASRWYDD I YMARFER

### Absenoldeb unigolyn cofrestredig o wrandawiad addasrwydd i ymarfer

10. (1) Os nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, bydd y panel:

(a) yn mynnu cael tystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawiad wedi cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig yn unol â rheol 7 neu dystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y gwrandawiad, ac
(b) yn holi a oes unrhyw resymau pam nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol wedi cael eu cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Lle mae paragraff (1) yn berthnasol, bydd y panel yn penderfynu p'un ai ymarfer y disgresiwn o dan reoliad 25(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig neu oedi, a bydd yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad.[3]

### Baich a safon y prawf

11. (1) Bydd baich y prawf mewn achosion gerbron y panel addasrwydd i ymarfer yn syrthio ar Ofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Lle y dadleuir ffeithiau, bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon sifil, yn ôl yr hyn sy'n debygol.

### Addasrwydd i bledio

12. (1) Lle mae mater yn codi ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i bledio, bydd panel yn ystyried:

(a) p'un a all yr unigolyn cofrestredig ddeall y materion yn yr achos;
(b) p'un a all yr unigolyn cofrestredig sylweddoli effaith unrhyw gyngor a dderbynnir gan gynrychiolwyr yr unigolyn cofrestredig (os oes rhai);
(c) p'un a all yr unigolyn cofrestredig roi cyfarwyddiadau yn unol â hynny.

(2) Bydd panel yn ystyried cyflwyniadau gan y partïon ar y mater hwn a chaiff dderbyn tystiolaeth feddygol arbenigol cyn gwneud penderfyniad ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i bledio.

(3) Pan fydd panel yn penderfynu bod yr unigolyn cofrestredig yn anaddas i bledio, caiff wneud gorchymyn dros dro o dan adran 144(3) y Ddeddf.

---

[3] Mae Rheoliad 25(4) yn darparu bod gan banel addasrwydd i ymarfer ddisgresiwn i fwrw ymlaen â gwrandawiad addasrwydd i ymarfer hyd yn oed os nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli, os yw'r panel addasrwydd i ymarfer yn fodlon bod pob ymdrech resymol wedi cael ei gwneud i hysbysu'r unigolyn am y gwrandawiad.

**Y weithdrefn yn y gwrandawiad**

13. (1) Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn tri cham, fel a ganlyn:

(a) materion rhagarweiniol a chanfyddiadau ffeithiau;
(b) canfyddiad ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer;
(c) gwarediad.

(2) Yn ystod y cam cyntaf, bydd y panel yn clywed ac yn penderfynu ar unrhyw geisiadau rhagarweiniol ac, yn amodol ar unrhyw ganfyddiadau a wneir mewn perthynas â'r ceisiadau rhagarweiniol, caiff y partïon gyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys galw tystion yn unol â rheol 22.

(3) Lle y profir ffeithiau yn ystod y cam cyntaf, bydd yr ail gam yn symud ymlaen yn unol â rheol 23.

(4) Lle, yn ystod yr ail gam, y gwneir canfyddiad bod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer, bydd y trydydd cam yn symud ymlaen yn unol â rheol 25.

**Cyplysiad**

14. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, caiff panel, yn ystod un gwrandawiad, ystyried a phenderfynu ar honiadau sy'n ymwneud â dwy sail amhariad neu fwy a bennir yn adran 117(1)(a) i (f) y Ddeddf, p'un a oedd yr honiadau hynny'n destun atgyfeiriad unigol neu ar wahân i'r panel.

(2) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, caiff panel ystyried honiadau yn erbyn dau unigolyn cofrestredig neu fwy mewn gwrandawiad ar y cyd lle mae'r honiad(au) yn erbyn pob unigolyn cofrestredig yn deillio o'r un amgylchiadau neu lle mae'r panel yn ystyried bod gwrandawiad ar y cyd yn briodol.

(3) Cyfeirir cais am gyfarwyddyd yn unol â rheol 14(2) at gyfarfod rheoli achos i'w ystyried o dan reol 6.

**Diwygio'r honiad(au)**

15. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, caiff y panel ddiwygio'r honiad(au) ar unrhyw adeg cyn i'r panel wneud canfyddiadau ffeithiau.

(2) Bydd y panel yn clywed sylwadau gan y partïon yn gyntaf, ac yn derbyn cyngor gan y cynghorydd cyfreithiol, cyn penderfynu p'un a ddylai'r honiad(au) gael eu diwygio ai peidio.

**Cyfaddefiadau**

16. (1) Ar ôl i'r honiad(au) gael eu darllen gan y clerc, bydd y cadeirydd yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd (os yw'n bresennol) a gyfaddefir unrhyw rai o'r ffeithiau (neu euogfarnau) a honnwyd a chaiff dderbyn datganiad cytunedig o ffeithiau.

(2) Lle y cyfaddefir unrhyw ffeithiau (neu euogfarnau[4]), bydd y cadeirydd yn cyhoeddi y canfuwyd bod y cyfryw ffeithiau (neu euogfarnau) wedi cael eu profi a bydd y panel yn penderfynu ar y mater amhariad ar addasrwydd i ymarfer.

(3) Lle na chyfaddefir ffeithiau, neu lle mae rhai ffeithiau'n parhau i fod yn destun dadl, bydd y cyflwynydd yn cyflwyno'r achos yn erbyn yr unigolyn cofrestredig i'r panel ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r ffeithiau hynny nad ydynt wedi'u cyfaddef.

**Tystiolaeth**

17. (1) Yn amodol ar reoliad 20(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), caiff panel dderbyn tystiolaeth lafar neu ddogfennol neu dystiolaeth arall.

(2) Yn ogystal â chaniatáu'r tystysgrifau y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(3)[5], (4)[6] a (5)[7] Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), bydd cynhyrchu cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth prima facie o ffeithiau sylfaenol y drosedd a arweiniodd at y rhybuddiad.

(3) Caiff panel ganiatáu tystiolaeth a gyflwynwyd gan barti er nad yw'r gyfryw dystiolaeth wedi cael ei datgelu yn unol â rheol 9(1):

(a) os yw'r partïon yn cydsynio; neu
(b) ar ôl clywed cyflwyniadau gan y partïon a derbyn cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol, os yw'n fodlon bod y dystiolaeth yn berthnasol ac y byddai'n deg ei chaniatáu.

(4) Caiff panel, o'i wirfodd, ofyn i'r partïon ddarparu dogfennau neu dystiolaeth arall neu ofyn i unigolyn roi tystiolaeth lafar y mae'n credu y gallai ei gynorthwyo i wneud penderfyniad.

**Tystion**

18. (1) Bydd tystion yn tyngu llw neu bydd yn ofynnol iddynt roi cadarnhad.

(2) Caiff panel, ar gais y parti sy'n galw'r tyst, gytuno na fydd manylion personol y tyst yn cael eu datgelu'n gyhoeddus.

(3) Yn amodol ar reoliad 24(12) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw ac yna caiff y parti gwrthwynebol eu croesholi, yn

---

[4] Os arweiniodd achos troseddol at orchymyn yn rhyddhau'r troseddwr yn ddiamod neu'n amodol, ni fydd y canlyniad hwnnw'n cael ei ystyried yn euogfarn o dan adran 82 Deddf Dedfrydu 2020. Mewn achos o'r fath, ystyrir nad yw'r rhyddhad diamod neu amodol yn eugofarn o drosedd berthnasol. Yn hytrach, gellir ystyried bod yr ymddygiad a arweiniodd at y rhyddhad diamod neu amodol yn honiad o gamymddwyn difrifol.
[5] Mae rheoliad 20(3) yn darparu bod tystysgrif a lofnodwyd gan swyddog cymwys llys o unrhyw awdurdodaeth sy'n datgan bod unigolyn wedi cael ei euogfarnu o drosedd, neu yn yr Alban a darn o euogfarn (*extract conviction*), yn dystiolaeth bendant o'r drosedd.
[6] Mae rheoliad 20(4) yn darparu bod tystysgrif bod unigolyn wedi'i gynnwys ar restr wahardd (at ddibenion adran 117(1)(c) y Ddeddf), a roddwyd gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal y rhestr, yn dystiolaeth bendant o'r ffaith honno.
[7] Mae rheoliad 20(5) yn darparu bod tystysgrif a roddwyd gan gorff perthnasol (at ddibenion adran 117(1)(d) y Ddeddf) sy'n datgan ei fod wedi penderfynu bod amhariad ar addasrwydd unigolyn i ymarfer yn dystiolaeth bendant o'r penderfyniad hwnnw.

amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 24(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd). Wedyn, caiff y parti sy'n galw'r tyst ail-holi'r tyst.

(4) Yna, caiff y panel, neu'r cynghorydd cyfreithiol, holi'r tystion gyda chaniatâd y cadeirydd.

(5) Wedi hynny, caiff y partïon holi'r tystion ar faterion sy'n deillio o gwestiynau'r panel. Bydd y parti sy'n galw'r tyst yn holi'r tyst olaf.

(6) Bydd tystion yn cael eu holi ymhellach yn ôl disgresiwn panel yn unig.

(7) Ni chaniateir i dystion fynychu ac arsylwi'r achos hyd nes y byddant wedi gorffen rhoi tystiolaeth i banel a chael eu rhyddhau'n ffurfiol gan y cadeirydd.

**Mesurau arbennig**

19. (1) Pan fydd panel yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 24(11) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), caiff y mesurau arbennig sydd i'w gweithredu neu eu darparu gynnwys y canlynol, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt:

(a) defnyddio cysylltiadau fideo;
(b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd o flaen llaw fel tystiolaeth tyst;
(c) defnyddio sgriniau;
(ch) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr.

**Oedi'r gwrandawiad**

20. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, ac ar ôl clywed sylwadau gan y partïon, caiff panel, ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad, oedi'r achos er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.

(2) Pan fydd y gwrandawiad wedi cael ei oedi, bydd y clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn rhoi gwybod i'r partïon, yr achwynydd a'r cyflogwr/cyflogwyr (os yw'n berthnasol) ac, os yw'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol, am y dyddiad a bennwyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawiad.

**Pleidleisio**

21. (1) Bydd penderfyniadau'r panel yn cael eu gwneud trwy fwyafrif syml.

(2) Ni chaiff cadeirydd y panel arfer pleidlais fwrw.

(3) Bydd unrhyw ymataliad yn cael ei ystyried yn bleidlais o blaid yr unigolyn cofrestredig.

**Canfyddiad ffeithiau**

22. (1) Bydd y cyflwynydd yn agor yr achos a chaiff gyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys galw tystion.

(2) Caiff yr unigolyn cofrestredig neu, os yw'n cael ei gynrychioli, cynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, agor achos yr unigolyn cofrestredig a chaiff gyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys galw tystion.

(3) Caiff y cyflwynydd, ac yna'r unigolyn cofrestredig neu, os yw'n cael ei gynrychioli, cynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig (os yw'n bresennol), wneud sylwadau i'r panel ynglŷn â ph'un a yw'r ffeithiau honedig wedi cael eu profi.

(4) Bydd y panel yn ystyried *in camera* p'un a yw ffeithiau'r honiad(au) wedi cael eu profi yn ôl yr hyn sy'n debygol.

(5) Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canfyddiadau ffeithiau'r panel a'r rhesymau dros ei ganfyddiadau gerbron y partïon (lle y bônt yn bresennol), oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

**Addasrwydd i ymarfer**

23. (1) Caiff y partïon wneud sylwadau i'r panel a chyflwyno tystiolaeth ynglŷn â ph'un a oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer.

(2) Wrth benderfynu ar fater amhariad ar addasrwydd i ymarfer, bydd y panel yn ystyried y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru a oedd mewn grym ar adeg y gweithredoedd neu'r anweithredoedd a arweiniodd at yr amhariad honedig ar addasrwydd i ymarfer. Hefyd, caiff y panel ystyried unrhyw ganllaw ymarfer a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n adeiladu ar y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac a oedd mewn grym ar adeg y gweithredoedd neu'r anweithredoedd a arweiniodd at yr amhariad honedig ar addasrwydd i ymarfer.

(3) Pan fydd y panel yn ystyried p'un a oes amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer oherwydd perfformiad diffygiol fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol, bydd yn ystyried p'un a yw'r diffyg honedig mewn perfformiad yn golygu bod yr unigolyn cofrestredig yn addas i gyflawni holl waith neu ran o waith unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr.

(4) Pan fydd y panel yn ystyried p'un a oes amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer oherwydd iechyd corfforol neu feddygol andwyol:

(a) bydd yn ystyried p'un a yw'r unigolyn cofrestredig yn addas yn gorfforol ac yn feddyliol i gyflawni holl waith neu ran o waith unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr;
(b) caiff ystyried unrhyw fethiant gan yr unigolyn cofrestredig i dderbyn unrhyw wahoddiad rhesymol gan Ofal Cymdeithasol Cymru i gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol cofrestredig a enwebwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;
(c) caiff ystyried:
    (i) cyflwr corfforol neu feddyliol presennol yr unigolyn cofrestredig,
    (ii) unrhyw gyflwr parhaus neu ysbeidiol y mae'r unigolyn cofrestredig yn dioddef ohono, a
    (iii) chyflwr y mae'r unigolyn cofrestredig yn dioddef ohono y gellid disgwyl iddo, er ei fod wedi gwella dros dro ar hyn o bryd, achosi i'r amhariad ar addasrwydd i ymarfer ddychwelyd;

(ch) bydd, yn amodol ar baragraff (d) isod, yn ystyried unrhyw adroddiadau meddygol neu dystiolaeth feddygol arall ynglŷn â ph'un a yw iechyd corfforol neu feddyliol gwael yr unigolyn cofrestredig wedi achosi'r amhariad honedig ar addasrwydd i ymarfer neu wedi cyfrannu'n sylweddol ato;
(d) ni fydd yn derbyn unrhyw adroddiadau meddygol na thystiolaeth feddygol arall oni bai bod yr unigolyn cofrestredig wedi cydsynio i gael ei archwilio ac i ganiatáu i'r cyfryw adroddiadau gael eu darparu i'r panel.

(5) Bydd y panel yn ystyried *in camera*, ar sail y ffeithiau y canfuwyd eu bod wedi'u profi, p'un a oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer.

(6) Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canfyddiadau'r panel ynghylch yr amhariad a'r rhesymau dros ei ganfyddiadau gerbron y partïon (lle y bônt yn bresennol), oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

**Canfyddiad o ddim amhariad: cynnig rhoi rhybudd**

24. (1) Pan fydd y panel yn penderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer, ond mae'r panel yn cynnig rhoi rhybudd i'r unigolyn cofrestredig, dilynir y weithdrefn ganlynol:

(a) bydd y cadeirydd yn cyhoeddi'r cynnig a'r rhesymau drosto;
(b) pan fydd yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn bresennol, bydd y cadeirydd yn rhoi cyfle i'r unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd wneud sylwadau;
(c) bydd y panel yn penderfynu, yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wnaed, p'un ai rhoi rhybudd a bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y panel.

(2) Pan fydd y panel yn penderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer, ond mae'r panel yn cynnig rhoi cyngor i'r unigolyn cofrestredig a/neu unrhyw unigolyn arall sy'n gysylltiedig â'r achos, bydd y cadeirydd yn cyhoeddi'r cyngor a'r rhesymau drosto.

**Gwrandawiad llafar mewn perthynas â rhybudd arfaethedig gan swyddog**

25. (1) Bydd y rheol hon yn berthnasol pan fydd unigolyn cofrestredig wedi gofyn am wrandawiad llafar.

(2) Bydd hysbysiad o'r gwrandawiad llafar yn cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad llafar;
(b) yn datgan y cynnig ar gyfer y rhybudd;
(c) yn datgan y rhesymau dros y cynnig;
(ch) yn cynnwys copïau o unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth y dibynnir arnynt/arni i gefnogi'r cynnig;
(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i:
  (i) fynychu'r gwrandawiad llafar;
  (ii) gwneud sylwadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iii) cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig;

(dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y weithdrefn yn y gwrandawiad llafar;
(e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad llafar;
(f) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan p'un a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig yn mynychu'r gwrandawiad llafar.

(3) Ni fydd y gwrandawiad llafar yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 28 niwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad, ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(4) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, caiff y panel benderfynu ar ei weithdrefnau ei hun, yn gyffredinol, a chaiff roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â phenderfynu ar y gwrandawiad llafar yn gyfiawn ac yn brydlon.

(5) Bydd y gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal fel a ganlyn:

(a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu'r cynnig ar gyfer rhybudd a'r rhesymau drosto ac yn tynnu sylw at unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol;
(b) bydd yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd (os yw'n bresennol) yn gwneud cyflwyniadau mewn ymateb, ac yn cyfeirio at unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y dibynnir arni;
(c) bydd y panel yn ystyried *in camera*, yng ngoleuni'r cyflwyniadau a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd, p'un a yw'n briodol rhoi'r rhybudd a fydd, os caiff ei roi, yn cyd-fynd â'r telerau a gynigiwyd yn yr hysbysiad o'r gwrandawiad llafar a roddwyd o dan baragraff (2);
(ch) bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y panel ynglŷn â ph'un ai rhoi'r rhybudd ym mhresenoldeb y partïon (lle y bônt yn bresennol) ac yn rhoi rhesymau dros benderfyniad y panel oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

**Canfyddiad o amhariad: cyflwyniadau ynghylch gwaredu**

26. (1) Lle mae panel addasrwydd i ymarfer wedi penderfynu bod amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer, bydd y cadeirydd yn cyhoeddi'r dulliau gwaredu sydd ar gael i'r panel a amlinellir yn adran 138(3) i (9) y Ddeddf ac yn gwahodd sylwadau gan y cyflwynydd a'r unigolyn cofrestredig ynglŷn â'r gwarediad priodol.

(2) Bydd y cyflwynydd yn rhoi manylion i'r panel am gofnod blaenorol yr unigolyn cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (os oes un) a chaiff gyflwyno tystiolaeth a gwneud cyflwyniadau ynglŷn â'r gwarediad priodol, os o gwbl, i'w wneud gan y panel.

(3) Yna, caiff yr unigolyn cofrestredig annerch y panel mewn ymateb a chaiff gyflwyno geirdaon a thystlythyrau a galw tystion cymeriad i'w gefnogi.

(4) Pan gyflwynir tystion cymeriad, caiff y cyflwynydd a'r panel eu holi.

(5) Ar ôl clywed cyflwyniadau'r unigolyn cofrestredig, bydd y panel yn penderfynu, *in camera*, ar y gwarediad priodol.

**Gwaredu drwy ddileu drwy gytundeb: gweithdrefn**

27. (1) Mae'r rheol hon yn berthnasol:

(a) lle y cyfeiriwyd yr unigolyn cofrestredig at Banel Addasrwydd i Ymarfer o dan adran 126(2) y Ddeddf, a
(b) lle y mae'r unigolyn cofrestredig wedi gwneud cais o dan adran 92 y Ddeddf i'r cofnod yn gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw gael ei ddileu o'r gofrestr drwy gytundeb, a
(c) lle nad yw GCC o'r farn y byddai gorchymyn gan Banel Addasrwydd i Ymarfer a wnaed o dan adran 138(2) y Ddeddf yn mynd yn groes i fudd y cyhoedd.

(2) Pan fydd paragraff (1) yn berthnasol, gall Gofal Cymdeithasol Cymru:

(a) wahodd yr unigolyn cofrestredig i gytuno ar ddatganiad ysgrifenedig o'r ffeithiau a'i lofnodi; a
(b) chydnabod bod amhariad presennol ar eu haddasrwydd i ymarfer trwy reswm y materion a amlinellir yn y datganiad cytunedig o ffeithiau, a
(c) rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y datganiad cytunedig o ffeithiau a chyfaddefiad o'r amhariad yn cael eu cyfrif wrth ystyried unrhyw gais yn y dyfodol am gofrestru yn unrhyw ran o'r gofrestr, os gwneir gorchymyn dileu o'r gofrestru drwy gytundeb o dan adran 138(2) y Ddeddf.

(3) Pan fydd paragraff (2) yn berthnasol, gall y panel waredu'r achos o dan adran 138(2) y Ddeddf drwy orchymyn bod cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn cael ei ddileu drwy gytundeb ar yr amod bod y panel yn fodlon na fyddai hyn yn groes i fudd y cyhoedd.

(4) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu yn unol â'r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn hysbysu'r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(d) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.

(5) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ystyried p'un ai arfer ei ddisgresiwn o dan adran 159 y Ddeddf i ddatgelu gwybodaeth am ei benderfyniad i'r canlynol:

(a) Llywodraeth Cymru;

(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[8];
(c) unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.

**Gwarediad cydsyniol arall: ymgymeriadau**

28. (1) Mae'r rheol hon yn berthnasol i achos sydd wedi cael ei atgyfeirio i'r panel ar gyfer gwrandawiad ac nad yw rheol 8 Rheolau Ymchwilio 2024 (neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth gyfatebol mewn fersiwn gynharach o'r rheolau hynny) yn berthnasol iddo, lle mae unigolyn a awdurdodwyd yn briodol:

(a) yn fodlon bod tebygolrwydd go iawn o ganfyddiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â'r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig, ond
(b) nid oes angen gwrandawiad llawn o'r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig er budd y cyhoedd.

(2) Pan fydd paragraff (1) yn berthnasol, caiff unigolyn a awdurdodwyd yn briodol wahodd yr unigolyn cofrestredig i:

(a) gyfaddef yr honiad(au);
(b) llofnodi datganiad cytunedig o ffeithiau;
(c) cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer o ganlyniad i'r materion a amlinellir yn y datganiad cytunedig o ffeithiau;
(ch) cytuno ar delerau ymgymeriad(au) arfaethedig.

(3) Pan fydd paragraff (2) yn berthnasol, caiff panel addasrwydd i ymarfer waredu'r achos o dan adran 136 y Ddeddf trwy gytuno ar yr ymgymeriad(au) arfaethedig â'r unigolyn cofrestredig, ar yr amod bod y panel yn fodlon na fyddai hyn yn groes i fudd y cyhoedd.

(4) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu trwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn hysbysu'r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(ch) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.

(5) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ystyried p'un ai arfer ei ddisgresiwn o dan adran 159 y Ddeddf i ddatgelu gwybodaeth am ei benderfyniad i'r canlynol:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[9];
(c) unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.

[8] Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru ddisgresiwn o dan adran 159 y Ddeddf i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer os yw o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd. Yn ogystal, o dan adran 42 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu gwybodaeth ragnodedig i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i ymateb i gais gan y GDG.
[9] Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru ddisgresiwn o dan adran 159 y Ddeddf i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer os yw o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd. Yn ogystal, o dan adran 42 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu gwybodaeth ragnodedig i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i ymateb i gais gan y GDG.

(6) Pan fydd achos yn cael ei waredu trwy gyfrwng ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn gofyn i'r:

(a) unigolyn cofrestredig; neu
(b) gyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol)

am y gyfryw wybodaeth ag a fydd yn galluogi unigolyn a awdurdodwyd yn briodol i benderfynu p'un a gydymffurfiwyd â'r ymgymeriad(au) neu a barheir i gydymffurfio â nhw.

(7) Pan fydd achos yn cael ei waredu trwy gyfrwng ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon ac mae unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn derbyn gwybodaeth sy'n dangos y cydymffurfiwyd yn llwyr â gofynion yr ymgymeriad(au), bydd yr unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na ddylai'r ymgymeriad(au) fod yn berthnasol mwyach a chaiff hysbysu'r unigolion eraill hynny a nodir ym mharagraffau (4) a (5) y rheol hon i'r perwyl hwnnw.

(8) Pan fydd achos yn cael ei waredu trwy gyfrwng ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn gwybodaeth wedi hynny sy'n dangos na chydymffurfiwyd ag ymgymeriad(au) (neu os nad yw'r unigolyn cofrestredig yn darparu gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gais o dan baragraff (6)(a) y rheol hon), bydd swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn atgyfeirio'r achos i banel addasrwydd i ymarfer er mwyn iddo gynnal adolygiad yn unol ag adran 133(3) y Ddeddf.

(9) Bydd adran 152 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw adolygiad o ymgymeriadau gan banel addasrwydd i ymarfer.

**Penderfyniad**

29. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y panel ar waredu a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw ym mhresenoldeb y partïon (lle y bônt yn bresennol) oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

30. (1) O fewn saith diwrnod ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr unigolyn cofrestredig a fydd:

(a) yn cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol a/neu'r cynghorydd meddygol (os oedd yn bresennol);
(b) yn amlinellu canfyddiadau ffeithiau'r panel, a'i benderfyniadau ynglŷn ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer a gwaredu;
(c) yn nodi'r rhesymau dros benderfyniadau'r panel;
(ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i apelio i'r tribiwnlys;
(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig pryd y bydd unrhyw warediad a osodwyd yn dod i rym.

(3) O fewn saith diwrnod ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad, wedi'i gyfyngu i ganfyddiadau ffeithiau'r panel ac

unrhyw benderfyniadau ynglŷn ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer a gwaredu, at:

(a) yr achwynydd;
(b) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(c) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.

(4) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff (3) i:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[10];
(c) corff rheoleiddio.

(5) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi gwybod i Awdurdodau Cymwys eraill os yw hynny'n ofynnol yn unol ag unrhyw drefniadau perthnasol rhwng gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU o'r ddwy ochr.

**Trawsgrifiad o'r gwrandawiad**

31. (1) Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i recordio gwrandawiad gerbron panel.

(2) Ar ôl derbyn cais gan yr unigolyn cofrestredig neu'r achwynydd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon trawsgrifiad a/neu gopi electronig o'r recordiad, o unrhyw ran o'r achos yr oedd gan yr unigolyn hwnnw hawl i fod yn bresennol ynddi, at yr unigolyn sy'n gwneud y cais.[11]

[10] Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru ddisgresiwn o dan adran 159 y Ddeddf i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer os yw o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd. Yn ogystal, o dan adran 42 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu gwybodaeth ragnodedig i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i ymateb i gais gan y GDG

[11] Mae'n bosibl y bydd angen i'r trawsgrifiad gael ei ddarparu ar ffurf olygedig er mwyn eithrio enw unrhyw unigolyn (e.e. defnyddiwr gwasanaeth) na ddylid bod wedi cyfeirio at ei enw yn gyhoeddus. Yn ogystal, os cynhaliwyd rhan o'r gwrandawiad yn breifat, ni fydd gan achwynydd hawl i gael copi o'r trawsgrifiad sy'n ymwneud â'r rhan neu'r rhannau o'r gwrandawiad a gynhaliwyd yn breifat.

## RHAN IV

## CYFARFODYDD Y PANEL ADDASRWYDD I YMARFER

### Achos heb wrandawiad

32. (1) Ceir penderfynu ar achosion heb wrandawiad yn unol â rheolau 33 i 34:

(a) pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 17(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol[12], a
(b) phan fydd yr unigolyn cofrestredig wedi cyfaddef yn ysgrifenedig bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.

(2) Caiff panel hefyd wneud penderfyniad o dan reol 27 (dileu drwy gytundeb) neu reol 28 (gwarediad cydsyniol trwy ymgymeriadau) heb wrandawiad os yw'r unigolyn cofrestredig wedi cytuno'n ysgrifenedig i'r achos gael ei benderfynu mewn cyfarfod o'r panel addasrwydd i ymarfer heb bresenoldeb y partïon.

(3) Pan fydd yr amgylchiadau ym mharagraffau (1) neu (2) yn berthnasol, ceir atgyfeirio'r achos i'w ystyried gan banel mewn cyfarfod yn unol â rheolau 33 a 34.

### Hysbysiad o'r cyfarfod

33. (1) Pan fydd achos wedi'i restru i'w ystyried mewn cyfarfod o banel o dan reol 32 (1) neu (2), bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn nodi'r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig;
(c) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys y datganiad o ffeithiau cytunedig a chytundeb ysgrifenedig ynglŷn â'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan y panel;
(ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i:
   (i) fynychu gwrandawiad llafar;
   (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;

---

[12] Mae rheoliad 17(1) yn darparu y ceir penderfynu ar achos addasrwydd i ymarfer heb wrandawiad –
(a) os yw'r partïon yn cytuno'n ysgrifenedig y ceir penderfynu ar yr achos heb wrandawiad;
(b) os yw'r partïon wedi cytuno'n ysgrifenedig â'r penderfyniad terfynol sydd i'w wneud gan y panel (gan gynnwys manylion y penderfyniad, megis y cyfnod y bydd gorchymyn mewn grym neu unrhyw amod sydd i'w osod ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig);
(c) os gwneir datganiad o ffeithiau cytunedig yn ysgrifenedig gan –
   (i) Ofal Cymdeithasol Cymru,
   (ii) yr unigolyn cofrestredig;
   (iii) y panel, ac
(ch) os yw'r panel yn penderfynu nad oes angen cynnal gwrandawiad.
Nid yw Rheoliad 17(1) yn berthnasol i achosion lle nad oes ymgysylltiad gan yr unigolyn cofrestredig. Lle nad yw unigolyn cofrestredig yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer a drefnwyd, caiff y gwrandawiad fwrw ymlaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig o dan reol 10(2) uchod.

(iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
(iv) galw a chroesholi tystion, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 24(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd);

(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig pe byddai'n dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau ym mharagraff (ch), bod rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod ac, yn absenoldeb hysbysiad o'r fath, y caiff y panel addasrwydd i ymarfer fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad a bennwyd;

(dd) yn amgáu copi o'r Rheolau hyn.

(2) Yn achos atgyfeiriad o dan reol 32(2) am waredu'n gydsyniol drwy ymgymeriadau, yn ogystal â'r materion a amlinellir ym mharagraff (1)(a) i (f) uchod, bydd yr hysbysiad o'r cyfarfod i'r unigolyn cofrestredig yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am effaith rheol 28(3) a (6) i (9);

(3) Ni fydd y cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (1), (2) neu (3), ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(4) Pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (1)(d) y rheol hon, bydd y cyfarfod yn cael ei ganslo a bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod o'r panel addasrwydd i ymarfer**

34. (1) Bydd panel yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.

(2) Os yw'r panel o'r farn ar unrhyw adeg o'r cyfarfod y dylid ymdrin â'r achos mewn gwrandawiad, gan ystyried buddiannau cyfiawnder a budd y cyhoedd, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

(3) Bydd y panel yn ystyried yr achos yn seiliedig ar y datganiad cytunedig o ffeithiau a'r cytundeb ysgrifenedig ynglŷn â'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan y panel.

(4) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (1) i (3) y rheol hon, bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i gyfarfod addasrwydd i ymarfer fel y bônt yn berthnasol i wrandawiad addasrwydd i ymarfer, sef; rheol 11 (baich a safon y prawf); rheol 13(1) (y weithdrefn yn y gwrandawiad); rheol 17 (tystiolaeth); rheol 20 (gohirio'r gwrandawiad); rheol 21 (pleidleisio); rheol 23(2) i (4) (addasrwydd i ymarfer), rheol 24 (cynnig rhoi rhybudd), rheol 25 (gwrandawiad llafar mewn perthynas â rhybudd arfaethedig); a rheol 30 (hysbysiad o'r penderfyniad).

## RHAN V

## ADOLYGU

### Achosion adolygu

35. (1) Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i achosion adolygu a gynhelir gan banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 133 neu 151 y Ddeddf pan fydd unrhyw un o'r canlynol yn gymwys:

(a) ymgymeriadau y cytunwyd arnynt rhwng unigolyn cofrestredig a Gofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 126(3)(d);
(b) ymgymeriadau y cytunwyd arnynt rhwng panel addasrwydd i ymarfer ac unigolyn cofrestredig o dan adran 136(1), 152(5) neu (6), 153(4) neu 155(7);
(c) gorchymyn cofrestriad amodol a wnaed (neu a gadarnhawyd neu a amrywiwyd) o dan adran 138(7), 152(8)(c), 153(6) neu (7), 154(8)(c) neu 155(10)(c) mewn perthynas ag unigolyn cofrestredig;
(ch) gorchymyn atal dros dro a wnaed (neu a gadarnhawyd neu a amrywiwyd) o dan adran 138(8), 152(8)(d), 153(9)(c) neu 154(6) neu (7) mewn perthynas ag unigolyn cofrestredig.

### Hysbysiad o'r gwrandawiad

36. (1) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r gwrandawiad adolygu at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad adolygu;
(b) yn nodi'r rheswm dros yr atgyfeiriad ar gyfer adolygiad;
(c) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i gael ei gynrychioli gan:
  (i) gyfreithiwr neu gwnsler; neu
  (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
  (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;

(ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i:
  (i) fynychu'r gwrandawiad adolygu;
  (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
  (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iv) galw a chroesholi tystion, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 24(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd);

(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig bod rhaid i unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (c) (i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad adolygu, gan nodi enw'r cynrychiolydd arfaethedig ac yn cadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
(dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na chaiff unigolyn sy'n cynrychioli neu'n cynghori'r unigolyn cofrestredig roi tystiolaeth;

(e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, os na fydd yn dymuno mynchu'r gwrandawiad adolygu, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf bum niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad adolygu i'w hystyried gan y panel;

(f) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y canlyniadau posibl o dan Bennod 5 y Ddeddf;
(ff) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad adolygu;
(g) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan p'un a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig yn mynychu'r gwrandawiad adolygu;
(ng) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

(3) Ni fydd y gwrandawiad adolygu yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad, ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Datgelu'r achos a chyflwyno dogfennau**

37. (1) O leiaf 28 niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad adolygu, neu'n gynt os mynnir hynny gan gyfarwyddiadau a roddwyd o dan reol 3 mewn adolygiad cyn-wrandawiad neu o dan reol 5 mewn cyfarfod rheoli achos, bydd y partïon yn cyflwyno i'w gilydd, ac yn rhoi i'r clerc, gopïau o'r holl ddogfennau ac adroddiadau y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

(2) Os bydd parti'n dymuno archwilio dogfennau gwreiddiol a ddelir gan y parti arall, bydd trefniadau ar gyfer eu harchwilio yn cael eu gwneud gyda'r parti arall o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad adolygu.

(3) Bydd y cyflwynydd yn ystyried p'un a oes unrhyw ddogfennau eraill ym meddiant Gofal Cymdeithasol Cymru a allai gynorthwyo'r unigolyn cofrestredig nad yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt, a bydd yn cyflwyno copïau o'r cyfryw ddogfennau (os oes rhai) i'r unigolyn cofrestredig.

(4) O leiaf saith diwrnod cyn gwrandawiad adolygu, bydd y clerc yn anfon copïau o'r canlynol at y panel:

(a) yr hysbysiad o'r gwrandawiad adolygu;
(b) unrhyw ddogfennau a roddwyd gan y partïon o ran paragraffau (1) a (3) uchod.

**Y weithdrefn yn y gwrandawiad adolygu**

38. (1) Bydd y gwrandawiad adolygu yn cael ei gynnal fel a ganlyn:

(a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos a'r amgylchiadau a oedd yn berthnasol i roi'r ymgymeriadau neu wneud y cofrestriad amodol neu'r gorchymyn atal dros dro (yn ôl y digwydd);
(b) caiff y cyflwynydd gyflwyno dogfennau a galw tystion;

(c) pan fydd adran 133(3) y Ddeddf yn berthnasol, bydd y cyflwynydd yn amlinellu'r sail i'r honiad bod yr unigolyn cofrestredig wedi torri'r ymgymeriad neu'r gorchymyn cofrestriad amodol (yn ôl y digwydd);
(ch) caiff yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd (os yw'n bresennol) gyflwyno dogfennau a galw tystion a gwneud cyflwyniadau;
(d) bydd y panel yn derbyn cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol a'r cynghorydd meddygol (os yw'n bresennol);
(dd) bydd y panel yn eistedd *in camera* i wneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r gwrandawiad adolygu;
(e) bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y panel a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw ym mhresenoldeb y partïon (lle y bônt yn bresennol) oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

(2) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (1) (a) i (g) y rheol hon, bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i wrandawiadau adolygu, sef: rheol 3 (adolygiad cyn-wrandawiad); rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio'r gwrandawiad); rheol 10 (absenoldeb unigolyn cofrestredig); rheol 11 (baich a safon y prawf); rheol 17 (tystiolaeth); rheol 18 (tystion); rheol 19 (mesurau arbennig); rheol 20 (gohiriadau); rheol 21 (pleidleisio); rheol 23(2) i (4) (addasrwydd i ymarfer); rheol 24 (cynnig rhoi rhybudd); rheol 25 (gwrandawiad llafar mewn perthynas â rhybudd arfaethedig); rheol 26 (canfyddiad o amhariad: cyflwyniadau ynghylch gwaredu); rheol 27 (dileu drwy gytundeb); rheol 29 (penderfyniad); rheol 30 (hysbysiad o'r penderfyniad) a rheol 31 (trawsgrifiad o'r gwrandawiad).

**Achos heb wrandawiad**

39. (1) Ceir penderfynu ar achos adolygu heb wrandawiad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 17(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol.

(2) Pan fydd yr amgylchiadau ym mharagraff (1) yn berthnasol, ceir atgyfeirio'r achos i'w ystyried gan banel mewn cyfarfod yn unol â rheolau 40 a 41.

**Hysbysiad o'r cyfarfod**

40. (1) Pan fydd achos wedi'i restru i'w ystyried mewn cyfarfod o banel, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn nodi'r rheswm dros yr atgyfeiriad am adolygiad;
(c) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys cytundeb ysgrifenedig yr unigolyn cofrestredig ag un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(3)(a) i (c) ac unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig gan y partïon;
(ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i:
  (i) fynychu gwrandawiad llafar;
  (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
  (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iv) galw a chroesholi tystion, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 24(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd;

(d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig pe byddai'n dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau ym mharagraff (ch), bod rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod ac, yn absenoldeb hysbysiad o'r fath, y caiff y panel addasrwydd i ymarfer fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad a bennwyd;

(dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y dulliau gwaredu posibl sydd ar gael i'r panel.

(e) yn amgáu copi o'r Rheolau hyn.

(2) Ni fydd y cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad, ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(3) Pan fydd yr unigolyn cofrestredig yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (1)(d) y rheol hon, bydd y cyfarfod yn cael ei ganslo a bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod adolygu**

41. (1) Bydd panel yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.

(2) Os yw'r panel o'r farn ar unrhyw adeg o'r cyfarfod y dylid cynnal yr adolygiad mewn gwrandawiad adolygu, gan ystyried buddiannau cyfiawnder a budd y cyhoedd, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad adolygu.

(3) Bydd y panel yn ystyried yr achos yn seiliedig ar gytundeb ysgrifenedig yr unigolyn cofrestredig ac unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan y partïon.

(4) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (1), (3) a (4) y rheol hon, bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i gyfarfodydd adolygu, sef; rheol 3 (adolygiad cyn-wrandawiad); rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio'r gwrandawiad); rheol 11 (baich a safon y prawf); rheol 20 (gohirio'r gwrandawiad); rheol 21 (pleidleisio); rheol 23(2) i (4) (addasrwydd i ymarfer); rheol 27 (dileu drwy gytundeb) a rheol 30 (hysbysiad o'r penderfyniad).

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**



**Mick Giannasi**

**Cadeirydd, Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Dyddiad: 1.12.24**